# BWRDD GWEITHREDOL

Dydd Llun, 22 Chwefror 2021

**YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd E. Dole (Cadeirydd)

**Y Cynghorwyr:**
C.A. Campbell, G. Davies, H.A.L. Evans, L.D. Evans, P.M. Hughes, P. Hughes-Griffiths, D.M. Jenkins, L.M. Stephens a/ac J. Tremlett

**Hefyd yn bresennol:**
Y Cynghorwyr: R. James, J.S. Edmunds a/ac D.M. Cundy

**Yr oedd y swyddogion canlynol yn gwasanaethu yn y cyfarfod:**
W. Walters, Prif Weithredwr
J. Morgan, Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymunedau
C. Moore, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
R. Mullen, Cyfarwyddwr yr Amgylchedd
G. Morgans, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Addysg a Phlant
L.R. Jones, Pennaeth Gweinyddiaeth a'r Gyfraith
P.R. Thomas, Prif Weithredwr Cynorthwyol (Rheoli Pobl a Pherfformiad)
J. Jones, Rheolwr Eiddo a Phrosiectau Mawr
J. Morgan, Pennaeth Cartrefi a Chymunedau Mwy Diogel
D. Hockenhull, Rheolwr y Cyfryngau a Marchnata
S. Rees, Cyfieithydd Ar Y Pryd
L. Jenkins, Swyddog Cefnogi Bwrdd Gweithredol
E. Bryer, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
J. Corner, Swyddog Technegol
M. Evans Thomas, Prif Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
M.S. Davies, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
R. Lloyd, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd
L Morris, Uwch Swyddog Y Wasg
D. Phillips, Swyddog i'r wasg a Chyfathrebu
K. Thomas, Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

**Rhith-Gyfarfod -. - 10.00 - 11.30 yb**

## 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB.

Ni chafwyd ymddiheuriadau am absenoldeb.

Cyfeiriodd Arweinydd y Cyngor at y tywydd garw iawn a gaed ledled Sir Gaerfyrddin dros y penwythnos blaenorol, pan achosodd glaw trwm lifogydd mewn tai, busnesau ac ar briffyrdd. Soniodd am y cynlluniau a roddwyd ar waith gan y Cyngor ac asiantaethau partner wrth baratoi at y tarfu, a chanmolodd holl staff y Cyngor a'r asiantaethau am eu hymdrechion wrth ymateb i'r llifogydd. Cyfeiriodd hefyd at ddigwyddiadau o'r fath yn cael eu gweld yn amlach o achos newid yn yr hinsawdd, a chrybwyllodd yr angen am gael polisïau cenedlaethol i fynd i'r afael â'r materion hyn. Dywedodd fod y Bwrdd Gweithredol yn gwneud sylwadau i Lywodraeth Cymru ynghylch hyn.

## 2. DATGAN BUDDIANNAU PERSONOL.

| Y Cynghorydd / Swyddog | Rhif y Cofnod | Y Math o Fuddiant |
|---|---|---|
| H. Evans | 3 – Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Chwefror – Cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol Gynradd Wirfoddol a Reolir y Model | Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Fwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi |
| H. Evans | 8 - Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2021/22 tan 2023/24 a Phennu Rhenti Tai ar gyfer 2021/22 | Ei chwaer yn Brif Weithredwr Cymdeithas Tai |
| H. Evans | 9 - Cynllun Busnes Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy 2021-24 | Ei chwaer yn Brif Weithredwr Cymdeithas Tai |

## 3. LLOFNODI FEL COFNOD CYWIR COFNODION CYFARFOD Y BWRDD GWEITHREDOL A GYNHALWYD AR 8FED CHWEFROR 2021

(NODER: Datganodd y Cynghorydd H. Evans fuddiant yn ystod y cyfarfod ar y drafodaeth yn ymwneud ag Ysgol y Model a gadawodd y cyfarfod wrth i hynny gael ei ystyried)

Cyfeiriodd y Cynghorydd H. Evans at ei datganiad o fuddiant a gofnodwyd yng nghofnod 2 a gofynnodd am ei newid i "Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Fwrdd Cyllid Esgobaeth Tyddewi"

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL lofnodi cofnodion cyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2021, gan eu bod yn gywir, yn amodol ar y newid uchod.**

Ar ôl cymeradwyo cofnodion y cyfarfod ar 8 Chwefror, yn amodol ar y newid uchod, dywedodd Arweinydd y Cyngor fod dau fater wedi codi ers hynny y byddai'r Bwrdd Gweithredol efallai'n dymuno rhoi ystyriaeth frys iddynt.

Roedd y cyntaf yn ymwneud â Chofnod 6 y cyfarfod ar y cynnig i newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol y Model, a'r ohebiaeth oedd wedi dod i law gan gorff llywodraethu'r ysgol yn hysbysu'r Awdurdod nad oeddent, fel llywodraethwyr, wedi cael gwybod yn iawn am y cynnig.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant er bod y cynnig wedi'i drafod gyda Chadeirydd Corff Llywodraethu'r ysgol a'r Pennaeth, ei bod yn edrych yn debyg nad oedd aelodaeth ehangach y Corff Llywodraethu, na staff ehangach yr ysgol, yn gwbl ymwybodol o'r cynnig. O ystyried hynny, mynegodd farn efallai na ddylai'r awdurdod fwrw ymlaen â'r ymgynghoriad os nad oedd y rhan fwyaf o'r Corff Llywodraethu neu'r staff yn ymwybodol o'r cynnig. Cynigiodd felly, i fod yn deg, fod y Cyngor yn rhoi'r gorau i'r cynnig (a oedd i fod i ddechrau'r

diwrnod hwnnw - 22 Chwefror, 2021) er mwyn caniatáu amser i ymgysylltu'n llawn â'r Corff Llywodraethu a'r Staff.

Dywedodd yr Arweinydd fod yr ail eitem yn ymwneud â'r Rhybudd o Gynnig a oedd wedi cael ei ystyried gan y Cyngor ar 10 Chwefror 2021 ar briodoldeb cynnal ymgynghoriadau ar faterion fel darpariaeth addysg yn ystod pandemig, a oedd wedi'i gyfeirio at y Bwrdd Gweithredol i'w ystyried.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Addysg a Phlant, er bod y Rhybudd o Gynnig hwnnw i'w ystyried gan y Bwrdd Gweithredol ar 1 Mawrth 2021, fod Llywodraeth Cymru, ar brynhawn 10 Chwefror, yn dilyn cyfarfod y Cyngor, wedi ymestyn y newidiadau dros dro i ofynion penodol y Cod Trefniadaeth Ysgolion am gyfnod pellach, er mwyn galluogi ymgynghoriadau i barhau er gwaethaf y pandemig. Wedi hynny, ar 15 Chwefror, roedd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi Canllawiau diwygiedig ar "Ymgynghori ar Gynigion Trefniadaeth Ysgolion yn ystod Pandemig", a byddai angen i'r Bwrdd Gweithredol ystyried y dogfennau hynny pan fyddai'n trafod y Rhybudd o Gynnig. Gan fod gan y Cyngor rai ymgynghoriadau a oedd wedi dod i ben mewn gwirionedd ar 21 Chwefror, ac yng ngoleuni'r drafodaeth oedd ar fin digwydd ynghylch y Rhybudd o Gynnig, fe awgrymodd efallai fod y Bwrdd yn barnu mai annheg oedd cau ymgynghoriadau tra bo mater byw i'w drafod. Cynigiodd felly fod y cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau ar yr ymgynghoriadau hynny yn cael ei ymestyn, a hynny ar frys, hyd nes bod y Bwrdd Gweithredol wedi trafod y Rhybudd o Gynnig ar 1 Mawrth 2021.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL**

1. **Rhoi'r gorau i'r cynnig a fabwysiadwyd yng nghofnod 6 o gyfarfod y Bwrdd Gweithredol a gynhaliwyd ar 8 Chwefror 2021, sef newid natur y ddarpariaeth yn Ysgol y Model, er mwyn caniatáu amser i ymgysylltu'n llawn â Chorff Llywodraethu a staff yr ysgol;**
2. **Ymestyn y cyfnod ar gyfer gwneud sylwadau ar ymgynghoriadau'r Cyngor hyd nes bod y Bwrdd Gweithredol wedi trafod y Rhybudd o Gynnig ar ymgynghoriadau yn ei gyfarfod ar 1 Mawrth 2021.**

## 4. CWESTIYNAU A RHYBYDD GAN Y CYHOEDD

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau wedi dod i law gan y cyhoedd.

## 5. CWESTIYNAU Â RHYBUDD GAN YR AELODAU

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd dim cwestiynau â rhybudd wedi cael eu cyflwyno gan yr Aelodau.

## 6. STRATEGAETH Y GYLLIDEB REFENIW 2021/22 - 2023/24

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn dwyn ynghyd y cynigion diweddaraf ynghylch Cyllideb Refeniw 2021/2022 ac yn darparu'r ffigurau mynegiannol ar gyfer blynyddoedd ariannol 2022/2023 a 2023/2024. Hefyd roedd yr adroddiad yn crynhoi'r sefyllfa ddiweddaraf o ran y gyllideb gan roi diweddariad ynghylch dilysu'r gyllideb, y gwasgfeydd o ran gwariant, setliad amodol Llywodraeth Cymru, a'r ymatebion gafwyd i'r ymgynghoriad ynghylch y gyllideb.

Amlinellodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau i'r Bwrdd nifer o ffactorau a oedd yn dylanwadu ar y gyllideb, gan gynnwys y ffaith na fyddai'r setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru yn dod i law tan 2 Mawrth 2021. Gan ystyried cyhoeddi'r setliad terfynol yn hwyr, dywedodd fod elfennau allweddol o ragdybiaethau a dyraniadau'r gyllideb wedi'u hadolygu ac wedi rhoi rhywfaint mwy o gyfle i'r awdurdod ailedrych ar rai o gynigion gwreiddiol y gyllideb.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau fod manylion llawn y setliad amodol, a oedd wedi'u cynnwys yn yr adroddiad, yn nodi bod cyllid Llywodraeth Leol ar sail Cymru gyfan wedi cynyddu 3.8% ar gyfartaledd ar setliad 2020/21, ac mai dyraniad Sir Gaerfyrddin oedd 3.8% (£10.466m). Er bod y setliad hwnnw wedi galluogi'r awdurdod i ddyrannu cyllid yn ei gyllideb ar gyfer nifer sylweddol o wasgfeydd chwyddiant a rhai na ellid eu hosgoi, roedd dal angen gwneud arbedion, ac er bod y gyllideb ddrafft gychwynnol wedi cynnwys gohirio swm sylweddol o arbedion i'r blynyddoedd i ddod, oherwydd effaith covid, roedd wedi darparu ar gyfer y newidiadau yng nghyllideb 2021/22, ond byddai dal angen gwneud newidiadau sylweddol pellach dros y blynyddoedd i ddod.

Cyfeiriodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol at y setliad terfynol gan Lywodraeth Cymru, a oedd i'w gyhoeddi ar 2 Mawrth 2021, a dywedodd fod yr adroddiad yn ceisio awdurdod i Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, ar y cyd â'r Arweinydd, y Prif Weithredwr, a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol i Strategaeth y Gyllideb cyn cyfarfod y Cyngor Sir ar 3 Mawrth 2020. Fodd bynnag, roedd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol wedi gwneud rhai addasiadau i rai o'r ffigurau eraill yn yr adroddiad, fel rhan o'r drefn arferol wrth i wybodaeth gliriach fod ar gael, gyda chyfanswm y dilysiad presennol yn ychwanegu rhyw £10m at y gyllideb. Roedd y dilysiad mwyaf sylweddol yn ymwneud â thâl, a oedd wedi caniatáu ar gyfer 2.5% bob blwyddyn. Fodd bynnag, nid oedd hynny'n berthnasol i athrawon, a oedd yn cael eu cwmpasu gan drefniadau tâl ar wahân o fewn cylch gwaith Llywodraeth Cymru, gyda dyfarniad 2020 yn gynnydd o 3.1%, gyda'r effaith ran-flynyddol yn rhagdybiaeth gyson o 2.5% ar gyfer unrhyw ddyfarniadau yn y dyfodol, a oedd yn cael ei gydnabod yn risg allweddol i'r gyllideb.

Atgoffwyd y Bwrdd gan yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, yn seiliedig ar setliad amodol y gyllideb, newidiadau i rai o'r rhagdybiaethau allweddol ynghylch dyfarniadau cyflog yn y dyfodol ac effaith oedi yn y rhaglen gyfalaf, fod rhywfaint o gyfle i wneud newidiadau i'r strategaeth, a'i fod wedi cytuno'n flaenorol i leihau'r cynnydd yn y Dreth Gyngor ar gyfer 2021/22 i 4.48%, a thrwy hynny ddarparu swm o £958k i ymateb i'r ymgynghoriad ar y gyllideb. Cynigiodd felly y newidiadau canlynol i strategaeth y gyllideb:-

- Gwaredu'r cynigion ynghylch glanhau gwteri ac ysgubo ffyrdd;
- Lleihau'r cynnig ynghylch gosod wyneb ar briffyrdd o £300k i £100k;
- Darparu cyllid o £75k ar gyfer y gwasanaeth TrueCall;
- Darparu £50k i roi mwy o gapasiti i'r adran addysg ddarparu gwell cymorth ariannol a llywodraethu fel rhan o gyfrifoldeb yr adran dros system yr ysgolion yn gyffredinol.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, wedi cynnig y newidiadau uchod, fod digon o arian ar gael i gapio'r cynnydd yn y dreth Gyngor ymhellach i 3.95% ar

gyfer 2021-22. Byddai'r cynigion hynny, pe baent yn cael eu mabwysiadu, yn cyflwyno cyllideb deg a chytbwys i'r Cyngor.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

**6.1 Bod Strategaeth Cyllideb 2021/22 yn cael ei chymeradwyo;**
**6.2 Bod Treth Gyngor Band D am 2021/22 i'w gosod ar £1,368.55(cynnydd o 3.95% ar gyfer 2021-22);**
**6.3 Bod y £958k o gyllid cylchol a oedd ar gael yn cael ei ddyrannu, fel y manylir uchod;**
**6.4 Bod y Cynllun Ariannol Tymor Canolig amodol yn cael ei gymeradwyo yn sylfaen i gynllunio ariannol ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod**
**6.5 Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw newid sy'n angenrheidiol o ganlyniad i setliad terfynol Llywodraeth Cymru a oedd i'w gyhoeddi ar 2 Mawrth 2021.**

## 7. RHAGLEN GYFALAF PUM MLYNEDD (CRONFA'R CYNGOR) - 2021/22 - 2025/26

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a oedd yn dwyn ynghyd y cynigion diweddaraf am Raglen Gyfalaf Bum Mlynedd (Cronfa'r Cyngor) 2021/22 hyd at 2025/2026. Roedd yr adroddiad yn cymryd i ystyriaeth yr ymgynghoriad a gynhaliwyd a'r goblygiadau refeniw oedd yn deillio o'r rhaglen gyfalaf.

Nododd y Bwrdd mai £258m oedd gwariant gros arfaethedig y rhaglen gyfalaf dros gyfnod o bum mlynedd, a'r bwriad oedd i'r Cyngor Sir gyllido £122.5m o'i adnoddau ei hun drwy ddefnyddio benthyciadau, derbyniadau cyfalaf, arian wrth gefn, a'r grant cyfalaf cyffredinol, a bod y £135m oedd yn weddill yn dod o ffynonellau allanol. Roedd swm o £4m rhwng blynyddoedd 4 a 5 heb ei ddyrannu am y tro, a byddai'n cael ei ddefnyddio wrth i gostau a chyllid arall gael eu crisialu wrth i amser fynd yn ei flaen.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol fod Atodiad A i'r adroddiad yn manylu ar y rhaglen lawn, a ariannwyd yn llawn am y pum mlynedd, ac yn darparu potensial ar gyfer buddsoddiad pellach ym mlynyddoedd 4 a phump o ystyried y cronfeydd o £4m a oedd heb eu dyrannu eto ar gyfer y blynyddoedd hynny

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol, er bod llawer o'r buddsoddiadau yn yr adroddiad yn gyfarwydd, gan gynnwys y rhaglen ysgolion ar gyfer yr 21ain ganrif, Priffyrdd, Adfywio a Thai, roedd wedi bod yn bosibl ychwanegu buddsoddiad at gynlluniau a oedd yn cael eu hystyried yn bwysig i'r sir er mwyn ymateb i'r pandemig Covid-19. Roedd y rhain yn cynnwys:-

- Adfywio Economaidd – Targedu Buddsoddiad mewn Adfywio (£1.2m); Cronfa Datblygu Eiddo Masnachol (£1m); Cronfa Mentrau Gwledig (£500k) ac £1m ar gyfer cynllun twf y 'Deg Tref', a oedd yn galluogi'r awdurdod i ddenu buddsoddiad sylweddol gan y sector preifat i'r sir. Yn ogystal,

byddai'r £500k a gymeradwywyd yn 2020/21 ar gyfer datgarboneiddio ystâd y Cyngor yn cael ei ddefnyddio bellach ar gyfer Grantiau Menter Ynni Adnewyddadwy i fusnesau i weithredu fel catalydd ar gyfer buddsoddiad preifat yn yr ardal honno a lleihau ôl troed carbon y sir;

- Seilwaith – Cronfa Ddŵr Trebeddrod (£1m), llwybr arfordir Morfa Bacas (£300k); gosod goleuadau cyhoeddus newydd yn lle'r hen rai (£400k y flwyddyn o 2024/25) ac ymrwymiad o £300k i fuddsoddi mewn ffermydd sy'n eiddo i'r Cyngor ar gyfer 2024/24;
- Gwasanaethau Cymunedol – ymrwymiad parhaus i gefnogi buddsoddiad mewn diwylliant yn Oriel Myrddin a chefnogaeth barhaus i dai sector preifat yn 2024/25 ar gyfer Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl;
- Adran yr Amgylchedd - parhau i gefnogi Gwelliannau Priffyrdd, Cynnal a Chadw Pontydd a chynlluniau diogelwch ar y ffyrdd i mewn i 2025/26. Byddai cyllid y Cyngor ar gynnal a chadw priffyrdd yn parhau i gael ei gryfhau yn 2021/22 drwy'r Grant Adnewyddu Ffyrdd a ddarperir gan Lywodraeth Cymru ;
- Ystâd y Cyngor – cyllid ychwanegol i waith hanfodol i Neuadd y Sir (£500k) a gwaith iechyd a diogelwch i Dŷ Elwyn (£700k)
- Yn ogystal â'r pecyn adfer yn 2021/22, cefnogwyd y gyllideb Adfywio gan fuddsoddiad ychwanegol pellach yng Nghronfa Prosiect y Strategaeth Trawsnewid yn 2025/26, a oedd â'r potensial i ddenu cyllid allanol sylweddol i gyfateb i fuddsoddiad y Cyngor

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

**7.1 Bod y Rhaglen Gyfalaf Bum Mlynedd, fel y'i nodwyd yn Atodiad A yr adroddiad, gyda 2021/22 yn gyllideb bendant a chyllidebau 2022/23 i 2025/26 yn gyllidebau amhendant/dangosol yn cael eu cymeradwyo;**

**7.2 Bod y rhaglen yn cael ei hadolygu, yn ôl yr arfer, oni lwyddir i gael y cyllid disgwyliedig gan gyrff allanol neu'r Cyngor Sir;**

**7.3 Bod y Strategaeth Gyfalaf, fel y manylir arni yn Atodiad D, yn cael ei chymeradwyo;**

**7.4 Bod Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â'r Prif Weithredwr, yr Arweinydd a'r Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau, yn cael awdurdod dirprwyedig i wneud unrhyw addasiadau angenrheidiol o ganlyniad i setliad terfynol Llywodraeth Cymru a oedd i'w gyhoeddi ar 2 Mawrth 2021.**

## 8. CYFRIF CYLLIDEB REFENIW TAI 2021/22 - 2023/24 A LEFELAU RHENTI TAI 2021/22 REFENIW A CHYFALAF

(NODER: Roedd y Cynghorydd H. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gadawodd y cyfarfod tra bo ystyriaeth yn cael ei rhoi iddi)

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried adroddiad a baratowyd gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol, ar y cyd â swyddogion o'r Adran Cymunedau a oedd yn dod ynghyd â'r cynigion diweddaraf ar gyfer Cyllidebau Refeniw a Chyfalaf y Cyfrif Refeniw Tai am 2021/22 i 2023/24. Nodwyd bod yr adroddiad wedi cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan y Pwyllgor Craffu – Cymunedau yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2021, fel rhan o'r broses ymgynghori ynghylch y gyllideb.

Roedd yr adroddiad wedi cael ei baratoi gan adlewyrchu'r cynigion diweddaraf a oedd yn rhan o Gynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai, sef y prif gyfrwng cynllunio ariannol ar gyfer darparu Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy (STSG+) ar gyfer y dyfodol. Nodwyd bod y buddsoddiad arfaethedig yn y cynllun busnes presennol wedi cyflawni Safon Tai Sir Gaerfyrddin erbyn 2015 (i'r cartrefi hynny lle'r oedd tenantiaid wedi cytuno i gael y gwaith wedi'i wneud), wedi darparu'r buddsoddiad i gynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy, ac wedi parhau i fuddsoddi yn Ymrwymiad i Dai Fforddiadwy'r Cyngor.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Adnoddau fod buddsoddiad cyfalaf o tua £231m wedi darparu Safon Tai Sir Gaerfyrddin i denantiaid ac, yn fwy diweddar, hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol, byddai £64m pellach wedi cael ei wario ar gynnal Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy ar gyfer eiddo a thenantiaid. Dros y 3 blynedd nesaf rhagwelwyd y byddai tua £56m pellach yn cael ei wario ar gynnal a gwella ein stoc tai. Roedd y gyllideb hefyd yn darparu cyllid o tua £49m dros y 3 blynedd nesaf i gefnogi'r Rhaglen Tai Fforddiadwy, ar ben y gwariant presennol o £45m hyd at ddiwedd y flwyddyn ariannol gyfredol hon. Byddai'r Strategaeth hefyd yn cynyddu'r cyflenwad o dai fforddiadwy ledled y sir, a hynny drwy wahanol atebion gan gynnwys ein rhaglen adeiladau newydd (fel Teras Glanmor, Porth Tywyn a Dylan, y Bynea) a'r cynllun prynu'n ôl.

Atgoffwyd y Bwrdd Gweithredol, ers 2015, ei fod yn ofynnol i'r Awdurdod fabwysiadu Polisi Cysoni Rhent Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru, a oedd yn golygu bod y cynnydd arfaethedig mewn rhent yn cael ei ragnodi gan gyfarwyddyd Llywodraeth Cymru, a thrwy hynny, ddarparu dosbarthiad mwy teg o'r rhenti ar gyfer tenantiaid y sector cymdeithasol. Er i'r polisi hwnnw ddod i ben yn 2018/19, a bod polisi interim wedi'i roi ar waith ar gyfer 2019/20, roedd Llywodraeth Cymru wedi datblygu polisi newydd i'w weithredu yn 2020/21 am gyfnod o 5 mlynedd o 2020/21, a oedd yn cynnwys rhai gofynion ychwanegol/diwygiedig, fel y nodwyd yn yr adroddiad. Roedd prif elfennau'r polisi hwnnw'n caniatáu i Awdurdodau Lleol gynyddu cyfanswm y rhent gan y Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) +1% ar gyfer pob un o'r pum mlynedd hyd at 2024/25. Roedd hefyd yn caniatáu i lefel y rhent ar gyfer tenantiaid unigol godi o hyd at £2 ychwanegol ar ben CPI+1% ar gyfer cysoni rhenti, ar yr amod na fyddai cyfanswm yr incwm rhent a gasglwyd gan y landlord cymdeithasol yn fwy na CPI+1%.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:**

**8.1 Bod y rhent tai cyfartalog yn cael ei gynyddu yn unol â Pholisi Rhenti Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru h.y:-**

- **a) Bod cynnydd o 1.27% yn cael ei wneud i renti eiddo sydd ar y targed**
- **b) Bod eiddo lle mae'r rhent yn is na'r rhenti targed yn cynyddu gan 1.27% yn ogystal â'r cynnydd mwyaf posibl o £1.00**
- **c) Bod rhenti a oedd yn uwch na'r rhent targed yn cael eu rhewi hyd nes iddynt ddod yn unol â'r targed**
- **d) Bydd hyn yn arwain at gynnydd o 1.5% neu £1.35 o ran y**

**rhent tai cyfartalog**

**Gan arwain felly at Gynllun Busnes cynaliadwy, cynnal STSG+, darparu adnoddau ar gyfer ein rhaglen Tai Fforddiadwy ac fe'i cefnogir gan Grŵp Llywio STSG+.**

**8.2 Gweithredu'r cynnydd mwyaf posibl o £1.00 ar gyfer rhenti sy'n is na'r rhenti targed, hyd nes y cyrhaeddir y rhenti targed;**

**8.3 Cadw rhent garejis yn £9.00 yr wythnos a sylfeini garejis yn £2.25 yr wythnos;**

**8.4 Rhoi'r Polisi ynghylch Taliadau am Wasanaethau ar waith er mwyn sicrhau bod y tenantiaid sy'n cael gwasanaethau penodol yn talu am y gwasanaethau hynny;**

**8.5 Cynyddu'r taliadau am ddefnyddio gwaith trin carthffosiaeth y Cyngor, yn unol â'r cynnydd mewn rhenti;**

**8.6 Cymeradwyo Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai am 2021/22 (cyllidebau dangosol oedd rhai 2022/23 a 2023/24), fel y nodwyd yn Atodiad A i'r adroddiad;**

**8.7 Cymeradwyo'r Rhaglen Gyfalaf arfaethedig a'r cyllido perthnasol am 2021/22, a'r gwariant mynegiannol ar gyfer 2022/23 hyd at 2023/24, fel y'u nodwyd yn Atodiad B i'r adroddiad.**

## 9. CYNLLUN BUSNES SAFON TAI SIR GAERFYRDDIN A MWY (STSG+) 2021-24

(NODER: Roedd y Cynghorydd H. Evans wedi datgan buddiant yn yr eitem hon yn gynharach a gadawodd y cyfarfod tra bo ystyriaeth yn cael ei rhoi iddi)

Bu'r Bwrdd Gweithredol yn ystyried Cynllun Busnes Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy 2021-2024, a phrif bwrpas y cynllun oedd:

- Egluro gweledigaeth a manylion Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy dros y tair blynedd nesaf, a'r hyn y mae'r Safon yn ei olygu i'r tenantiaid
- Dangos bod yr incwm a gafwyd gan denantiaid a'r ffynonellau cyllid eraill yn darparu rhaglen gyfalaf o £107m dros y tair blynedd nesaf i:
    - Adeiladu dros 400 o dai fforddiadwy;
    - Gwella a chynnal a chadw'r stoc bresennol
    - Datblygu safonau newydd ar gyfer effeithlonrwydd ynni a symud tuag at gartrefi carbon niwtral
- Dangos sut y gallai'r rhaglenni buddsoddi mewn tai helpu i ysgogi'r economi a'i hadfer yn dilyn Covid-19
- Llunio cynllun busnes ar gyfer y cais blynyddol i Lywodraeth Cymru am Lwfans Atgyweiriadau Mawr (MRA) ar gyfer 2021/22, sy'n cyfateb i £6.2m.

Dywedodd yr Aelod o'r Bwrdd Gweithredol dros Dai fod yr adroddiad wedi'i rannu i'r pedair thema allweddol ganlynol gyda'r nod o symud pethau ymlaen am y tair blynedd nesaf:-

1. Thema 1 – Cefnogi Tenantiaid a Phreswylwyr;
2. Thema 2 – Buddsoddi mewn Tai a'r Amgylchedd, yn cynnwys datblygu Safon Ansawdd Tai Cymru newydd, gan adeiladu ar yr hyn a gyflawnwyd eisoes drwy Safon Tai Sir Gaerfyrddin a Mwy, a safon uwch o ran effeithlonrwydd ynni yn nhai'r Cyngor;

3. Thema 3 – Darparu 500 yn fwy o dai drwy fuddsoddi £60m yn y pedair blynedd nesaf ynghyd â datblygu Uwch-gynllun Tai Fforddiadwy ac Adfywio 10 mlynedd newydd erbyn hydref 2021;
4. Thema 4 – Yr economi sylfaenol, manteision cymunedol a chaffael drwy ymateb yr awdurdod i Covid-19 drwy ddatblygu ymhellach ymagwedd y Cyngor at gaffael er mwyn sicrhau ei fod yn gwneud popeth posibl i gyfrannu at ffyniant yr economi leol ac yn gwella ei ffocws ar werth cymdeithasol a chyfoeth cymunedol

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

**9.1 Cadarnhau gweledigaeth STSG+, rhaglen adeiladu tai newydd y Cyngor, y rhaglen ariannol a'r rhaglen gyflawni dros y tair blynedd nesaf;**
**9.2 Cyflwyno Cynllun Busnes 2021/22 i Lywodraeth Cymru;**
**9.3 Nodi'r egwyddorion sydd wrth wraidd symud tuag at gartrefi carbon niwtral a datblygu strategaeth datgarboneiddio i gefnogi hyn;**
**9.4 Nodi pwysigrwydd y buddsoddiad sydd wedi'i gynnwys yn y cynllun a'i rôl o ran ysgogi'r economi leol a'i hadfer yn dilyn pandemig Covid-19.**

## 10. POLISI RHEOLI'R TRYSORLYS A STRATEGAETH 2021-22

Atgoffwyd y Bwrdd Gweithredol fod y Cyngor, yn unol â gofynion Côd Ymarfer diwygiedig CIPFA ynghylch Rheoli'r Trysorlys, wedi cytuno i gynnal Polisi Rheoli'r Trysorlys a oedd yn manylu ar bolisïau ac amcanion gweithgareddau'r Awdurdod o ran Rheoli'r Trysorlys, a hefyd i gymeradwyo Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn flynyddol cyn dechrau'r flwyddyn ariannol yr oedd yn ymwneud â hi. Yn ogystal, dan ddarpariaethau Deddf Llywodraeth Leol 2003, roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Yn unol â'r gofynion uchod, rhoddodd y Bwrdd Gweithredol ystyriaeth i Bolisi a Strategaeth y Cyngor ynghylch Rheoli'r Trysorlys ar gyfer blwyddyn ariannol 2021-22 cyn eu rhoi gerbron y Cyngor yn ffurfiol ar gyfer eu mabwysiadu'n derfynol.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL ARGYMELL I'R CYNGOR:-**

**10.1 Bod Polisi a Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2021-22 a'r argymhellion a nodwyd ynddynt yn cael eu cymeradwyo.**
**10.2 Bod Dangosyddion Rheoli'r Trysorlys, y Dangosyddion Darbodaeth, y Datganiad ynghylch y Ddarpariaeth Isafswm Refeniw, y Strategaeth Fuddsoddi, a'r argymhellion yn cael eu cymeradwyo.**

## 11. UNRHYW FATER ARALL Y GALL Y CADEIRYDD OHERWYDD AMGYLCHIADAU ARBENNIG BENDERFYNU EI YSTYRIED YN FATER BRYS YN UNOL AG ADRAN 100B(4)(B) O DDEDDF LLYWODRAETH LEOL, 1972.

Dywedodd y Cadeirydd nad oedd unrhyw eitemau eraill o fater brys.

12. **GORCHYMYN I'R CYHOEDD ADAEL Y CYFARFOD**

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL, yn unol â Deddf Llywodraeth Leol 1972, fel y'i newidiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad at Wybodaeth) (Amrywio) (Cymru) 2007, orchymyn i'r cyhoedd adael y cyfarfod tra oedd yr eitemau canlynol yn cael eu hystyried, gan fod yr adroddiadau'n cynnwys gwybodaeth eithriedig fel y'i diffiniwyd ym mharagraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf.**

13. **TENANTIAID BUSNES - CONSESIWN RHENT**

**Yn sgil cynnal y prawf budd y cyhoedd PENDERFYNWYD, yn unol â'r Ddeddf y cyfeiriwyd ati yng nghofnod 11 uchod, beidio â chyhoeddi cynnwys yr adroddiad am ei fod yn cynnwys gwybodaeth eithriedig ynghylch materion ariannol neu faterion busnes unrhyw unigolyn penodol (gan gynnwys yr Awdurdod oedd yn meddu ar y wybodaeth honno) (Paragraff 14 o Ran 4 o Atodlen 12A i'r Ddeddf). Roedd y prawf budd i'r cyhoedd mewn perthynas â'r adroddiad hwn yn drech na'r budd i'r cyhoedd o ran datgelu'r wybodaeth a geir ynddo, gan y byddai datgelu'r wybodaeth yn achosi niwed i'r busnesau y cyfeiriwyd atynt yn yr adroddiad, gan danseilio'u safle yn y farchnad ac o bosibl rhoi swyddi mewn perygl ac achosi niwed i'r economi leol.**

Gan gyfeirio at gofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2020, ystyriodd y Bwrdd Gweithredol adroddiad diweddaru ar y gostyngiad rhent a roddwyd i'w denantiaid busnes o ganlyniad i bandemig Covid 19 ac a ddylid ymestyn y cynllun hwnnw.

**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL gynnig gostyngiad rhent o 50% i denantiaid busnes y Cyngor ar gyfer y cyfnod chwarter rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021, i'w asesu yn ôl caledi, a'i roi i'r rhai roedd ei angen fwyaf arnynt, a bod angen i fusnesau cymwys wneud cais am ostyngiad erbyn dyddiad penodol, a chadarnhau unrhyw gymorth grant a gafwyd eisoes.**

________________________ ________________________

**CADEIRYDD** **DYDDIAD**